# Staff - Cylch Meithrin Awel y Mynydd

Gosododd Cheryl, Arweinydd Cylch Meithrin Awel y Mynydd, darged bod holl staff y cylch am ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Cafodd pob aelod o staff eu cofrestru ar gwrs Mynediad Camau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

## Pam?

Gan mai'r Gymraeg yw'r unig iaith a ddefnyddir yn y Cylch Meithrin, gosododd Cheryl darged i'r holl staff ddechrau ar gwrs Mynediad Camau. Roedd Cheryl am i'r tîm gryfhau eu hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Roedd Camau hefyd yn ffordd o sicrhau datblygiad proffesiynol parhausy tîm.



## Canlyniad!

Mae'r tîm wedi cefnogi ac ysbrydoli ei gilydd ar eu teithiau dysgu ac maent i gyd wedi cwblhau'r cwrs lefel Mynediad. Mae'r staff yn teimlo bod y cwrs wedi eu cefnogi gydag ymadroddion Cymraeg ac mae'r ffaith eu bod nhw oll yn defnyddio'r un eirfa ac ymadroddion y maent wedi'u dysgu ar y cwrs yn cynnig cysondeb i'r plant a'i gilydd. Mae hyder yr holl staff wedi gwella, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol arnyn nhw fel tîm. Teimlai'r staff oedd eisoes â sgiliau Cymraeg bod y cwrs wedi darparu trosolwg o'r iaith, gan gynnwys ynganu geiriau, dysgu geiriau newydd a deall treigladau meddal.

Dyma adborth ar sut brofiad oedd dysgu ar-lein -

**Claudia - "Roedd yn hawdd iawn mewngofnodi a mynd ar fy mhorth i ddarganfod pa lefel roeddwn arni, roedd yn well gen i ei wneud ar-lein yna wyneb yn wyneb."**

**Mirielle - "Roedd hi'n llawer haws na gorfod mynd allan i gyrsiau, gan fod gofal plant gwastad yn broblem."**

**Cheryl - "Roedd hyn yn wych i mi gan y gallwn weithio drwyddo pan oedd yn gyfleus i mi. Roedd y system yn hawdd iawn i'w defnyddio, roeddwn i'n hoffi'r ffaith y gallwn ailedrych ar adrannau ar ôl eu cwblhau pe bawn i'n anghofio rhywbeth".**

**Ann - "Mae dysgu ar-lein yn iawn. Mae'n dda gallu dysgu yneich amser eich hun."**

**Janine - "Roedd yn dda iawn".**

Canfu'r staff fod yr adnoddau a oedd yn cefnogi'r cwrs yn ddefnyddiol gan eu bod yn gallu eu lawr lwytho a'u hargraffu i'w harddangos yn y cylch. Cymerodd y staff luniau sgrin o'r cwrs hefyd i gyfeirio atyn nhw ac ymarfer er mwyn cefnogi eu dysgu.Mae'r holl staff wedi parhau â'u taith ddysgu ac wedi cofrestru ar y lefel Sylfaen.

### Top Tips!

- Dyfalbarhewch a daliwch ati!
- Neilltiwch amser dynodedig i gwblhau'r unedau
- Cymerwch eich amser
- Defnyddiwch yr hyn rydych chi'n ei wybod yn rheolaidd
- Ailadroddwch y tasgau nes eich bod chi'n deall

# Staff - Cylch Meithrin Awel y Mynydd

Cheryl the Leader of Cylch Meithrin Awel y Mynydd set a target to develop the Welsh language skills for all staff. All staff members were enrolled onto the Camau Mynediad course to develop their Welsh language skills.

## Why?

As Welsh is the only language used in the Cylch Meithrin, Cheryl set a target for all staff to start the Camau Mynediad course. Cheryl wanted to the team to strengthen their confidence to use their Welsh language skills. Camau also provided a way to ensure the continued professional development of the team.



## Result!

The team have been able to support and inspire each other on their learning journeys and have all completed the Mynediad level. Staff feel the course has supported them with Welsh phrases and that there's consistency in them all using the same words and phrases they have learnt on the course, with the children and each other. All staff's confidence has improved which has had a positive impact on them as a team. Staff with prior Welsh language skills felt the course provided them with a recap in knowledge particular pronouncing words, learning new words and understanding soft mutations.

Feedback on how they found learning online, included -

**Claudia - "It was very easy to log on and go on my portal to find what level I was on, I preferred to do it online then face to face."**

**Mirielle - "It was much easier than having to go out to courses as childcare is always an issue".**

**Cheryl - "This was brilliant for me as I could work through it when it was convenient for me, very easy system to use, I liked the fact that I could revisit sections after completing them to recap if I had forgotten anything".**

**Ann - "I find learning online ok. It's good to be able to learn in your own time."**

**Janine - "It was very good".**

The staff found the resources that supported the course useful as they were able to download and print them to display in the Cylch , staff also took screen shots of the course to refer to and practice which supported their learning. All staff have continued their learning journey and enrolled on the Foundation level.

### Top Tips!

- Persevere!
- Set aside a designated time to complete the units
- Take your time
- Use what you know regularly so you obtain the information
- Keep going over the tasks until you understand